Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ground Floor Seacole
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ff: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

**Dyddiad:** 14/07/2025

Annwyl Ymgynghorai

**Ymgynghoriad ar Ymestyn Dyddiadau Cau Cyflwyno Cofrestriadau Trosiannol Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU**

1. Rydym yn ysgrifennu atoch i wahodd safbwyntiau ar gynigion y Llywodraeth i ymestyn y dyddiadau cau presennol ar gyfer cyflwyno cofrestriadau trosiannol REACH y DU.

2. Rydym hefyd yn ceisio safbwyntiau ar ymestyn y dyddiadau i'r Asiantaeth gynnal gwiriadau cydymffurfio ar 20% o'r ffeiliau cofrestru.

3. Mae'r ymgynghoriad ar gael ar GOV.UK: https://consult.defra.gov.uk/reach-policy/extending-the-uk-reach-submission-deadlines

4. Rydym ni'n croesawu eich barn a'ch safbwyntiau ar y cynigion. Os hoffech chi gael copi o'r ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost at UKREACHextension@defra.gov.uk.

**Ymatebion**

5. I gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch yr holiadur ymgynghori a ddarperir drwy *Citizen Space* gan ddefnyddio hyb ymgynghori *Citizen Space* yn Defra (adnodd ymgynghori ar-lein yw *Citizen Space*).

6. Dylid cyflwyno ymatebion erbyn **8 Medi 2025.**

Gellir anfon ymatebion, gwybodaeth neu ddogfennau ychwanegol at:

Consultation on UK REACH
UK REACH Legislation and Policy team,

Defra Ground Floor, Seacole Building,
2 Marsham Street.
London, SW1P 4DF

**Meini prawf yr ymgynghoriad**

7. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyd-fynd â'r Egwyddorion Ymgynghori. Mae'r rhain ar gael yn Consultation principles: guidance - GOV.UK

**Cyfrinachedd a Diogelu Data**

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriadau wedi'i lwytho, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Bwriedir i'r ddogfen ymgynghori hon, a'r broses ymgynghori, lynu wrth yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar wefan llywodraeth y DU yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i grynodeb yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd a pha ran o'r DU y maent yn ei chynrychioli, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maen nhw'n eu cynrychioli a, lle bo hynny'n berthnasol, pwy arall maen nhw wedi ymgynghori â nhw wrth ddod i'w casgliadau pan fyddan nhw'n ymateb.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â gweithdrefnau mynediad at wybodaeth, sef Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIRs), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data (DPA) 2018 yn bennaf.

Os ydych chi eisiau i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch bod yr Adran, fel awdurdod cyhoeddus, yn rhwym wrth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ddatgelu'r holl wybodaeth rydych chi'n ei darparu, neu rywfaint ohoni.

Os ydych yn clicio 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol.

Os byddwch yn clicio 'Na' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond ni fyddwn yn cyhoeddi eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat.

Mae gennym ddyletswyddau, yn bennaf o dan yr EIRs, FOIA a DPA, i ddatgelu gwybodaeth i'r cyhoedd a phartïon eraill mewn rhai amgylchiadau.

Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran.
Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet, sydd ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw mewn neges e-bost at: consultation.coordinator@defra.gov.uk.

Diolch am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn gywir

Tîm Polisi a Deddfwriaeth REACH y DU

Ground Floor, Seacole Building, 2 Marsham Street,

London, SW1P 4DF